


## Atebion

### Llun 1



**Ilha de Queimada** yw enw'r ynys yma ond Ynys y Nadroedd (Snake Island) yw'r enw poblogaidd. Mae hi oddi ar arfordir Brasil, tua 90 milltir o San Paulo.

Fel mae'r enw'n awgrymu, mae'r ynys yn llawn nadroedd – mae tua 4,000 o nadroedd yn byw yma, ac, yn waeth byth, dyma'r nadroedd mwyaf peryglus yn y byd. Nid dyma'r lle i fynd am bicnic, felly!

### Llun 2



Dyma'r **loris araf**. Mae e'n edrych yn anifail hoffus, gyda llygaid mawr ond mamal gwenwynig yw e. Mae ganddo wenwyn yn ymyl ei benelinau a phan mae e'n teimlo mewn perygl, mae'r gwenwyn yn mynd o'i benelinau i'w geg ac yn cymysgu gyda'i boer. Os yw'n brathu, mae'n gwenwyno ac mae'r gwenwyn yn gallu lladd.

Dydy e ddim mor annwyl ag mae'n ymddangos, felly!

## Atebion

### Llun 3

Mae'r caws yma'n dod o Sardinia.



Mae'n arbennig iawn oherwydd mae'n llawn cynrhon byw – ie, cynrhon byw! – a phan rydych chi'n bwyta'r caws, mae rhai o'r cynrhon yn neidio, gan lanio ar eich wyneb neu yn eich llygaid! Maen nhw'n gallu neidio tua 10 centimetr!

Pam mae cynrhon yn y caws? Ar ôl i'r caws gael ei wneud, mae twll yn cael ei dorri yn y top ac yna mae'n cael ei adael tu allan. Mae pryfed yn mynd i mewn i'r caws ac yn dodwy wyau ynddo ac yna mae'r cynrhon yn datblygu.

Hoffech chi flasau darn? Mae'n edrych yn flasus iawn ond ...!

### Llun 4



**Wyu canrif** (Century eggs) yw'r enw ar yr wyau yma. Dydyn nhw ddim yn gant oed ond maen nhw wedi cael eu cadw mewn toddiant halwynog arbennig, eu lapio a'u cadw am rai misoedd nes bod y tu mewn yn newid lliw ac ansawdd. Mae'r melyn yn troi'n wyrdd tywyll ac mae'n mynd yn hufennog. Mae'r gwyn wy yn mynd yn frown tywyll ac mae'n debyg iawn i jeli.

Beth ydych chi'n feddwl o'r wyau yma? Hoffech chi eu blasu?

# Atebion

Geirfa		
Cymraeg	Disgrifiad	Saesneg
gwenwynig	mae'n gallu niweidio'r corff neu hyd yn oed ladd	poisonous
gwenwyn	rhywbeth sy'n beryglus os yw'n mynd i mewn i'r corff; mae'n gallu lladd	poison
penelin, penelinau	cymal sydd hanner ffordd i fyny'ch braich	elbow
brathu	"cnoi" yn y De	to bite
gwenwyno	y ferf o "gwenwyn" – gweler uchod	to poison
cynrhon	lluosog "cynrhonyn"; larfa pryfed	maggots
toddiant halwynog	hylif arbennig sy'n cynnwys halen	saline solution
ansawdd	cyfansoddiad	texture
gwyn wy	y rhan o'r wy sy'n "wyn"	albumen, egg white